| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| **TEITL:** | **Adroddiad Cyllid (Rhagfyr - 2018/19)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2018/19. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno ar y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2018/19.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod Aelodau'r Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2018/19 fel y nodwyd yn **Atodiad 1**. Cyllideb refeniw net y cyngor yw £194.418 miliwn (£189.252 miliwn yn 17/18). Rhagwelir y bydd gorwariant o £0.756 miliwn ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol (gorwariant o £0.964 miliwn yn yr adroddiad diwethaf). Mae'r naratif o amgylch y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn cael eu hamlinellu yn Adran 6.

Roedd cyllideb 2018/19 angen nodi a chytuno ar arbedion ac effeithlonrwydd o £4.6 miliwn. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o sut cafodd y targed arbedion ei gyflawni. Gellir cadarnhau bod y £2 filiwn o ganlyniad i newidiadau yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r £1 miliwn o arbedion corfforaethol ehangach eisoes wedi eu cyflawni. Cytunwyd ar arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau o £1.2 miliwn ac arbedion o £0.4 miliwn fel rhan o'r gyllideb. Gan fod yr arbedion effeithlonrwydd yn rhan o'r 'arfer' ar gyfer gwasanaethau, cymerir yn ganiataol y bydd y rhain yn cael eu cyflawni. Bydd unrhyw eithriad yn cael ei adrodd wrth y Cabinet yn ôl y gofyn.

| Arbedion / Effeithlonrwydd a Gytunwyd ar gyfer 2018/19 | £000 | % oed |
|---|---|---|
| Newid i Ddarpariaeth Refeniw Isafswm | 2,000 | 43% |
| Arbedion Corfforaethol a Nodwyd 2017/18 | 1,000 | 22% |
| Effeithlonrwydd Gwasanaeth (gweler Atodiad 2) | 1,200 | 26% |
| Arbedion Gwasanaeth (gweler Atodiad 2) | 411 | 9% |
| Cyfanswm Llawn | 4,611 | 100% |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. **Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**
Mae naratifau gwasanaethau pwysig yn egluro amrywiadau a risgiau i'w gweld yn y paragraffau isod.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd **Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata** yn gorwario £40,000 (nodwyd £40,000 y mis diwethaf). Mae'r pwysau i raddau helaeth yn sgil y costau staff uwch na'r disgwyl yn ymwneud â llenwi dros gyfnodau mamolaeth. Mae'r cynnydd yn y gorwariant o £21,000 yn sgil cynnydd o £11,000 yn y taliadau glanhau / gofalu mewnol ar gyfer Llyfrgelloedd a £10,000 o gostau corfforaethol a ragwelir ar gyfer Contact 360 CRM yn ymwneud â ffioedd trwyddedau meddalwedd.

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd tanwariant o £91,000 yn y **Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** (£88,000 o danwariant fis diwethaf) i raddau helaeth oherwydd swyddi gwag staff a fydd yn cyfrannu at gynigion arbed y gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd **Priffyrdd a'r Amgylchedd** yn gorwario o £818,000 (nodwyd £806,000 y mis diwethaf). Dylid nodi'r canlynol:

- **Prosiectau mawr –** yn dilyn cyflwyniad a thrafodaeth am y materion yng nghyfarfod Bwrdd Ail-lunio'r Cyngor, cynigiwyd bod dyraniad o'r gyllideb o £140,000 yn cael ei ryddhau yn ystod y flwyddyn o gronfeydd arian at raid sy'n cael ei ddal yn ganolog, er mwyn cael gwared â'r pwysau parhaus hwn.
- **Cludiant i'r Ysgol -** mae cyllid ychwanegol bellach wedi'i ddyrannu i ariannu effaith lawn y polisi cludiant diwygiedig yn ymwneud â llwybrau peryglus, y cytunwyd arno'r llynedd. Er y gobeithid y byddai hyn yn ddigonol i ddarparu'r gwasanaeth, mae'r pwysau canlynol hefyd wedi'u nodi:
    - Mae newidiadau i'r polisi'n ymwneud â rhoi lle i blant Sir Ddinbych yn ysgolion arbennig Sir Ddinbych wedi arwain at gynnydd mewn costau cludiant arbennig. Mae'r costau hyn yn arbennig o uchel gan eu bod yn cynnwys tacsis a hebryngwyr. Mae effaith gyffredinol y newid hwn o weithredu, nad yw o fewn rheolaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd, wedi arwain at gynnydd mewn costau o oddeutu £300,000.
    - Mae'r cynnydd cyffredinol yn y contractau a gytunwyd o fis Medi yn swm o £318,000, sy'n ymwneud yn bennaf â chynnydd yn nifer cyffredinol y disgyblion a chontractwyr yn trosglwyddo pwysau chwyddiant i'r Cyngor. Mae nifer o gontractau yn parhau i fod yn destun ymarfer tendro a allai effeithio ar ragamcanion y dyfodol.

  Mae'r pwysau parhaus newydd a nodwyd yn 2018/19 wedi'i gynnwys yn y cynigion cyllidebol presennol fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20.
- **Strydwedd –** mae'r gwasanaeth wedi nodi gofyniad statudol i ddatrys mater gyda 'Tomennydd Legacy Tips'. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm cost un-tro hyn yn fwy na £200,000. Mae pwysau ychwanegol o fewn y gwasanaeth yn ymwneud ag amser ychwanegol a weithiwyd gan staff er mwyn rhoi sylw i faterion a godwyd gan y cyhoedd / Aelodau (e.e. gwagio rhagor o finiau yn y Rhyl yn ystod misoedd poeth yr haf).
- **Gwastraff –** mae llawer o wahanol bwysau yn effeithio ar y Gwasanaeth Gwastraff sydd wedi eu codi yng nghyfarfod Bwrdd y Gyllideb. Mae rhan fwyaf y pwysau yn ymwneud â ffioedd contractau newydd ar gyfer y contract gwastraff ailgylchadwy cymysg. Bydd y pwysau yn 2018/19 a 2019/20 yn cael ei ariannu o Gronfa Wrth Gefn Gwastraff ac mae pwysau o £900,000 ar y gyllideb wedi ei gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2020/21.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y **Gwasanaeth Addysg a Phlant** yn gorwario £1.476 miliwn (nodwyd £1.669 miliwn ym mis Rhagfyr). Mae'r prif resymau dros y gostyngiad mewn gorwariant yn ymwneud â:

- Ad-daliad o £107,000 yn ymwneud â chyfraniad blynyddol Sir Ddinbych i Dîm Troseddu Ieuenctid ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r ad-daliad yn ymwneud â dull adnabod balans a gaiff eu dal gan Gonwy o gronfeydd blynyddoedd blaenorol.
- Mae £98,000 yn ymwneud â gweithredu elfen gwasanaethau plant y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae hwn yn grant newydd gan Lywodraeth Cymru y derbyniwyd hysbysiad ffurfiol o ddyraniad CSDd ar ei gyfer.

Mae rhywfaint o'r cynnydd hwn wedi'i osod yn erbyn gostyngiadau bach mewn rhagamcanion mewn meysydd eraill o fewn y gwasanaeth.
Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn faes risg uchel oherwydd anwadalwch niferoedd yr achosion a phwysau chwyddiannol ar gostau lleoliadau. Gall pob lleoliad unigol fod yn arbennig o ddrud ac felly gall unrhyw gynnydd mewn niferoedd gael effaith fawr ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae amcanestyniad y canlyniad terfynol yn cynnwys yr holl leoliadau cyfredol y tu allan i'r sir a ragwelir i amserlenni realistig. Mae lleoliadau Addysg Tu Allan i'r Sir ac adenillon yn llai na'r hyn a oedd yn y gyllideb yn sgil y gostyngiad yn niferoedd y disgyblion o Awdurdodau Lleol eraill sy'n mynd i ddarpariaeth ysgolion arbennig y Cyngor. Mae'r gorwariant a adroddir yn ystyried cyfraniad cyllideb o £750,000 a gytunwyd fel rhan o broses cyllideb 18/19. Mae goblygiadau ariannol y pwysau hyn ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20 wedi cael eu hystyried ac mae dyraniad cyllideb sylfaen o £1.5 miliwn wedi ei gynnwys yng nghynigion presennol y gyllideb sydd hefyd ar y rhaglen hon.

Rhagwelir y bydd **Cyfleusterau, Asedau a Thai** yn gorwario £42,000 (£87,000 wedi'i adrodd fis diwethaf) yn bennaf oherwydd cynnydd yn y costau sefydlu disgwyliedig yn ymwneud â'r prosiect SC2. Mae'r pwysau a oedd yn gyfanswm o £277,000 wedi'i liniaru gan y gwasanaeth drwy'r cynnig i ail-ganolbwyntio'r £138,000 a ddygwyd ymlaen o 17/18 a'r dyraniad o £54,000 o'r incwm a gafwyd o Gytundeb Fframwaith Caffael Alliance Leisure. Mae'r gostyngiad pellach ers y mis diwethaf yn ymwneud ag adolygiad o'r holl ymrwymiadau a rheolaeth agos o wariant gan y Pennaeth Gwasanaeth. Mae opsiwn yn parhau i gyfalafu rhywfaint o'r gwariant os na fydd modd nodi cyfraniadau pellach o fewn y flwyddyn.

Rhagwelir y bydd y **Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** yn adennill ei gostau yn dilyn dyrannu £750,000 yn ychwanegol ar gyfer 2018/19 a chynlluniau i ddefnyddio arian wrth gefn (sy'n gyfraniad pellach o £800,000 yn 2018/19). Mae hyn bellach yn ystyried cydran Gwasanaethau Cymorth Cymunedol o'r Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a oedd yn dod i gyfanswm o £366,000. Mae gorwariant o fewn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Darparwyr Mewnol yn parhau i fod yn feysydd lle mae'r pwysau mwyaf. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys angen cyllidebol tybiedig am £500,000 y flwyddyn yn ychwanegol er bod gwaith pellach yn cael ei wneud i asesu'r goblygiadau ariannol llawn a nodi camau gweithredu i helpu i liniaru effaith y pwysau hwn.

**Ysgolion –** Bydd y sefyllfa o ran Balansau Ysgolion yn dal i gael ei monitro'n agos, gydag adroddiadau i'r Aelodau bob mis. Mae Cyllid Addysg yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau cadarn ac, yn ogystal â hynny, mae prif ac uwch swyddogion Addysg a Chyllid yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r cynlluniau hynny a chymryd unrhyw gam unioni yn ôl yr angen. Roedd y gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2018/19 yn ddiweddar yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol o £1.8 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion. Dygwyd diffyg net o £0.343 miliwn ymlaen i 2018/19 yn y balansau ysgol, a oedd yn welliant ar £0.713 miliwn ar y balansau a ddygwyd ymlaen o 2016/17. Ar ddiwedd mis Tachwedd, rhagwelir y bydd diffyg net yn y balansau ysgol o

£1.342 miliwn, sy'n gynnydd ar y diffyg a ragamcanwyd o £0.999 miliwn ar y balansau a ddygwyd ymlaen o 2017/18. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y gyllideb heb ei dirprwyo yn gorwario £9,000 oherwydd tanwariant bychan.

**Y Cyfrif Refeniw Tai.** Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn tybio y bydd gostyngiad o £1.050 miliwn mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn, sydd £410,000 yn fwy na'r gostyngiad o £630,000 a nodwyd yn y gyllideb. Mae'r symudiad ers y mis diwethaf i raddau helaeth yn sgil penderfyniad i gynyddu'r cyfraniad refeniw at y Rhaglen Gyfalaf gan felly leihau'r gofyniad benthyca cyffredinol. Felly, rhagwelir y bydd balansau'r Cyfrif Refeniw Tai yn £1.162 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb Gyfalaf o £10.2 miliwn yn cael ei dyrannu rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£6 miliwn) a datblygiadau tai newydd (£4 miliwn).

**Corfforaethol –** Ar hyn o bryd amcangyfrifir y bydd arian o gronfeydd corfforaethol at raid, sy'n gyfanswm o £1.55 miliwn, ar gael i'w ryddhau er mwyn helpu i gyllido gorwariant y gwasanaeth (amcangyfrif o £1.55 miliwn y mis diwethaf). Mae gwaith pellach yn parhau mewn meysydd, megis rhagamcan ar gost biliau ynni'r cyngor cyfan, y Gyllideb Ariannu Cyfalaf, adolygiad canol blwyddyn o gronfeydd a glustnodwyd a rhagamcanion ynghylch yr incwm o dreth y cyngor er mwyn cynorthwyo i sicrhau y cedwir y galw ar Falansau Cyffredinol i'r isafswm posibl.

**Rheoli'r Trysorlys –** Ar ddiwedd mis Rhagfyr, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £224.884 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.24%. Roedd balansau buddsoddi yn £10.3 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.52%.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor ynghlwm yn **Atodiad 2**. Mae'r cynllun cyfalaf a gymeradwywyd yn £56.8 miliwn ac mae'r gwariant hyd yma'n £30.8 miliwn. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar y prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer yr arbedion yn Atodiad 2 a'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor eu cyflwyno i'r Cyngor ar 30 Ionawr. Roedd asesiad ar gyfer y newid i bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i'r Cyngor ym mis Medi 2017.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi ei hystyried yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chyfarfodydd briffio'r Cabinet a'r Cyngor. Cynhaliwyd gweithdai cyllideb rheolaidd gydag aelodau etholedig i archwilio cyllidebau gwasanaeth ac ystyried y cynigion o ran y gyllideb. Hysbyswyd yr holl aelodau o staff am y broses o bennu'r gyllideb ac ymgynghorwyd yn llawn â staff sy'n cael eu heffeithio, neu bwriedir gwneud hynny, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau gofynnol yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

Mae pwysau penodol yn parhau i fod yn amlwg yng nghyllidebau gofal cymdeithasol (Oedolion a Phlant) er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol o £1.5m ar gyfer 2018/19. Mae sefyllfa debyg yn awr ar gyfer Cludiant Ysgolion er gwaethaf buddsoddiad ychwanegol o £0.6m yn 17/18 a 18/19. Mae darpariaeth ar gyfer y pwysau hwn wedi'i

chynnwys yng nghynigion y gyllideb a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Bydd balansau ysgol yn parhau i gael eu hadolygu’n ofalus. Mae Cyllid Addysg yn gweithio’n agos iawn gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau cadarn ac, yn ogystal â hynny, mae prif ac uwch swyddogion Addysg a Chyllid yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu’r cynlluniau hynny a chymryd unrhyw gam unioni yn ôl yr angen.

Er gwaethaf dyrannu arian corfforaethol at raid pellach, mae gorwariant cyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn bryder. Efallai y bydd eitemau corfforaethol ychwanegol a fydd yn gymorth pellach i'r sefyllfa fel y nodwyd yn Adran 6. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen ariannu gorwariant yn ystod y flwyddyn o'r Balansau Cyffredinol (a fyddai angen eu disodli erbyn y flwyddyn ariannol nesaf) oni bai bod cynlluniau arbed costau ar draws y Cyngor yn gallu cynorthwyo i leihau’r gorwariant ar wasanaethau.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae hwn yn parhau yn gyfnod ariannol heriol a bydd methu â chyflawni’r strategaeth a gytunwyd o ran y gyllideb yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn y blynyddoedd ariannol presennol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli’r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.